

Mae Cyngor Tref y Rhyl wedi datgelu llwyth o anrhegion a gweithgareddau ar gyfer y Nadolig.

O gystadlaethau i gorau, a ffilm am ddim hefyd, mae 12 diwrnod o weithgareddau a chystadlaethau i bobl y Rhyl gymryd rhan ynddynt a'u mwynhau.

Mae hwyl y Nadolig yn dechrau ar 1 Rhagfyr gyda pherfformiad gan Gôr Cymunedol Ghost-buskers yng nghanol y dref. Mae thema chwaraeon eleni hefyd, gyda chyfle i un person ifanc arbennig fod yn fasnog Clwb Pêl Droed y Rhyl, a sesiynau galw heibio, rhoi-cynnig-arni gyda Chlwb Tennis y Rhyl, a fydd yn arddangos yn y White Rose.

Ar frig y rhestr fydd arddangosiad am ddim o'r glasur Nadolig It's a Wonderful Life yn Neuadd Dref y Rhyl, gyda 250 tocyn am ddim ar gael.

Dywedodd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Sarah Roberts, bod gan wledd Nadolig y Rhyl rywbeth i'w gynnig i bawb.

Meddai'r Cynghorydd Roberts: "Mae ein rhaglen Nadolig yn anelu at ledaenu hwyl yr ŵyl ledled y dref. Mae gennym gantorion a cherddorion yn perfformio yng nghanol y dref, cystadlaethau ar gyfer pobl o bob oedran, sesiynau cwrdd a chyfarch gyda chymeriadau o'r ffilm Disney Frozen a llawer mwy.

"Y seren ar frig ein coeden Dolig fydd arddangos It's a Wonderful Life yn rhad ac am ddim ar 17 Rhagfyr, gyda 250 o docynnau ar gael am ddim o 7 Rhagfyr ymlaen."

Mae cyngor y dref wedi ymuno ag Elusen Celfyddydau Cymunedol TAPE Hen Golwyn i ddangos y ffilm yn Neuadd Dref y Rhyl.

"Mae ein gweithgareddau Nadolig yn golygu cefnogi cymaint o'r dref ag y medrwn – o ganol y dref i'n clybiau a'n hysgolion lleol.

"Trwy ymuno â Chlwb Pêl Droed y Rhyl a Chlwb Tennis y Rhyl, rydym yn dangos fod gweithgareddau yn y dref i bobl fynd allan ac ymuno â nhw, bod pethau i bobl ei wneud. Wedi'r cyfan, pwy fedr wrthod cyfle i roi cynnig ar Ping Pong Merrily High on High," ychwanegodd y Cynghorydd Roberts.



Mae'r rhaglen lawn fel a ganlyn:

Dydd Iau 1af Côr Cymunedol Ghostbusters. Canol y Dref 11am- 1pm

Dydd Gwener 2il CYFLE i fod yn fasgot Clwb Pêl Droed y Rhyl yn eu gêm gartref ar 10fed Rhagfyr .

Dydd Sadwrn 3ydd Cyfarfod sêr Peter Pan Pafiliwn y Rhyl. Stryd Fawr. 12.30pm -2.30pm.

Dydd Sul 4ydd Pops y Nadolig gyda Clem Curtis & The Foundations, Only Boys Aloud, Georgia Holland a Chôr Ysgol Emmanuel. Eglwys Sant Tomos, Ffordd Russell. 5pm-7pm Tocynnau am ddim ar gael o Ganolfan Groeso'r Rhyl, ffoniwch 01745 355068 i gael gwybod yr oriau agor.

Dydd Iau 6ed Y Côr Cymunedol yn ôl. *Canol y Dref. Hanner dydd – 2pm

Dydd Mercher 7fed Tocynnau ar gael ar gyfer arddangosiad AM DDIM It's a Wonderful Life (PG) I gofrestru trwy ebost: events@gunsmokecommunications.co.uk neu i gofrestru ar dudalen Facebook Cyngor Tref y Rhyl: @RhylTownCouncil

Dydd Iau 8fed Ymunwch â chôr Ysgol Mair ar gyfer caneuon y Nadolig. White Rose. 10am-11am.

Dydd Sadwrn 10fed Ping Pong Merrily on High! Sesiynau Clwb Tennis y Rhyl YN RHAD AC AM DDIM. Ewch i Orsaf Heddlu Dros Dro Gogledd Cymru. White Rose. 11am -4pm

Dydd Sul 11eg Y Rhyl trwy'r Tymhorau. Cystadleuaeth ffotograffiaeth flynyddol yn agor ar Facebook.

Dydd Sadwrn 17eg Arddangosiad AM DDIM It's a Wonderful Life yn Neuadd Dref y Rhyl. 7pm

Dydd Sul 18fed Ymunwch â Band Gorymdeithio'r Rhyl ar gyfer cerddoriaeth yr ŵyl. *Canol y Dref. 11pm-1pm

Dydd Iau 22ain Cyfarfod Elsa, Olaf ac Anna o Frozen. *Canol y Dref. Cyfle i fwynhau cerddorion o Ysgol Hyfforddi Gerddorol Catherine Henderson. White Rose. 11am – 1pm.

Diwedd

Tachwedd 2016

